Prosiect Plannu Deg Miliwn o Goed, Mbale, Uganda

Mae'r ardal ar lethrau Mynydd Elgon, llosgfynydd diffoddedig, ar y ffin rhwng Uganda a Kenya. Gyda'i gilydd, mae'r chwe rhanbarth yn gorchuddio ardal o fwy na 180,000 hectar. Cyfanswm poblogaeth y rhanbarth hwn yw tua 1.26 miliwn. Mae coedwigoedd Uganda yn gartref i o leiaf 7.5% o rywogaethau mamaliaid hysbys y byd. ac i fwy na 1,000 o rywogaethau gwahanol o adar.

Y problemau

Mae pobl yn gallu gweld bod eu hinsawdd yn newid. Mae'r glaw yn llai rhagweladwy ac wedyn, mae glaw yn gallu disgyn mor drwm fel bod llifogydd weithiau, sy'n arwain at dirlithriadau sy'n cario tai a phobl i ffwrdd. Mae sychder yn yr ardal hefyd, sy'n sychu cnydau.

Mae pobl angen gwneud bywoliaeth ac mae angen tanwydd arnynt i goginio a chynhesu dŵr. Rhwng 1990-2010, gostyngodd maint y gorchudd coedwig yn Uganda o 5 miliwn hectar i 3.6 miliwn hectar. Roedd pobl yn torri coed i wneud ffermydd a chael tanwydd.

Beth mae'r prosiect yn ei wneud?

Mae Maint Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i blannu 10 miliwn o

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

goed yn yr ardal hon. Eleni (2019), bydd y 10 miliynfed goeden yn cael ei phlannu.

Mae tua 35,000 o goed y flwyddyn yn cael eu plannu oherwydd y cynllun Plant!, sy'n plannu coeden yn Uganda ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru.

Mae Maint Cymru yn gweithio gyda sefydliadau lleol i redeg meithrinfeydd coed, ac i hyfforddi pobl leol yn y sgiliau maen nhw'n teimlo bod eu hangen arnynt.

Maen nhw wedi'u hyfforddi

- i dyfu a phlannu egin-goed,
- i wneud stofiau coginio sy'n defnyddio llawer llai o danwydd
- i wneud bywoliaeth gyda'r goedwig drwy dyfu amrywiaeth o bethau

Mae 55 o bobl wedi cael swyddi'n tyfu egin-goed yn y meithrinfeydd coed.

Adeiladwyd 805 o stofiau sy'n arbed ynni yn ystod 2018-19.

Storïau pobl

Rhedeg methrinfeydd
Mae gan Anet Nabumati bump o blant, ac mae hi'n byw ar fferm fach. Roedd hi'n cael trafferth gwneud bywoliaeth cyn i'r prosiect ddechrau. Cafodd ei hyfforddi i dyfu eginblanhigion, ond roedd hi mor dda yn gwneud hyn fel ei bod hi nawr, yn rhedeg dau o feithrinfeydd.

Gyda'i gwybodaeth a'i sgiliau newydd, mae hi'n dweud ei bod hi nawr yn gallu tyfu planhigion

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

coffi, blodau addurnol a choed eraill, yn ogystal â'r coed gwreiddiol a ddarparwyd gan y prosiect. Mae hi'n eu gwerthu i dalu ffioedd ysgol ac i brynu bwyd a dillad i'w theulu.

Mae hi wedi dysgu sut i wneud stofiau coginio sy'n defnyddio llawer llai o danwydd hefyd, o ddeunyddiau lleol, sy'n coginio bwyd yn gyflym iawn ac sy'n defnyddio llai o bren.

Mae Anet wedi hyfforddi pobl leol ac ar ben hynny, mae hi wedi rhoi cyfweliadau ar y radio hefyd, i roi gwybod i bobl am y manteision o blannu coed. Mae hi'n falch dros ben o fod yn rhan o'r prosiect.

Ffermio a byw gyda'r goedwig

Mae Charles Wabumba yn ffermwr sydd wedi bod yn cadw gwenyn ers 30 mlynedd ond yn y gorffennol, roedd yn rhaid iddo fynd cryn bellter i'w rhoi nhw mewn coed. Erbyn hyn, mae wedi plannu egin-goed ar ei dir ei hun ac wedi rhoi cychod gwenyn ynddynt. Mae wedi plannu coed coffi a choed mwy tal fel afocado, sy'n helpu'r coed coffi drwy eu cysgodi. Nawr, mae'n gallu gwerthu coffi, afocados a mêl.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cwch gwenyn wedi'i wneud yn lleol mewn coed ym Mbale

Mae'r incwm wedi caniatáu iddo anfon ei holl blant i'r ysgol

Pan ofynnwyd iddo am ei obeithion ar gyfer y gymuned dros y 5 mlynedd nesaf, meddai Charles:

"Dwi'n gallu gweld, dim hyd yn oed mewn 5 mlynedd, ond mewn 3 blynedd, dwi'n gallu gweld yn ôl beth mae'r prosiect yma'n ei wneud a'r eginblanhigion rydych chi'n eu rhoi, dwi'n rhagweld newid mawr, newid positif."

"Rwy'n gwerthfawrogi chi bobl a Llywodraeth Cymru sydd wedi cyflwyno'r prosiect plannu coed hwn, sydd wedi agor fy llygaid go iawn o safbwynt yr amgylchedd ... Rwy'n caru chi'r Cymry gymaint. "

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Yr athro

Mae Raphael Opedi yn athro wedi ymddeol, sy'n 91 mlwydd oed. Mae wedi bod yn plannu coed yn y plot o dir o amgylch ei dŷ ers 1979. Torrodd y ffensys ac agor ei ardd i'w gymdogion a'r gymuned gyfagos eu mwynhau. Maen nhw'n casglu ffrwythau fel mango, orennau ac afocado o'r coed ffrwythau sydd wedi cael eu tyfu ganddo. Fel athro, mae'n deall pwysigrwydd addysg lle mae gofal am yr amgylchedd yn y cwestiwn. Mae wedi neilltuo llawer o'i fywyd, nid yn unig i blannu coed, ond i annog ei deulu a'r plant mae'n eu dysgu i blannu coed hefyd.

Mr Opedi a'i wraig

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Grwpiau menywod

Mae Grŵp Menywod Suunu yn ysgrifennu a pherfformio caneuon i addysgu'r gymuned am bwysigrwydd plannu coed a gwarchod yr amgylchedd.

Paratoi pridd ar gyfer hau eginblanhigion

Mae Menywod Makunya yn cwrdd ddwywaith yr wythnos yn eu meithrinfa goed i wneud yn siŵr bod egin-goed yn cael eu hailblannu yn eu cymuned sydd wedi'i ddatgoedwigo'n drwm. Mae eu meithrinfa yn cynhyrchu 35,000 o eginblanhigion bob blwyddyn, ac maen nhw'n eu dosbarthu nhw am ddim. Maen nhw hefyd wedi cael eu hyfforddi mewn adeiladu stofiau. Mae'r stofiau hyn yn defnyddio ynni'n effeithlon, ac yn defnyddio tua 60% yn llai o goed tân o'i gymharu â ffyrnau traddodiadol. Os nad oes gan rywun yn eu cymuned stôf, byddant yn mynd ac yn adeiladu stôf ac yn hyfforddi'r person/teulu ar sut i'w defnyddio.

"Mae bod yn rhan o'r grŵp hwn wedi gwella ein perthynas gyda'r gymuned, oherwydd rydym yn cydweithio fel menywod, ffrindiau ac aelodau o'r gymuned"

Partner – Menter Tyfu Cyoed Mynydd Elgon

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government